

CANLLAWIAU AR DALIADAU RHEOLIADAU ADEILADU YN WEITHREDOL O 1 MEHEFIN 2014



ESTYNIADAU AC ADDASIADAU DOMESTIG

Mae taliadau ar gyfer gwaith Rheoleiddio Adeiladu yn ofynnol i dalu cost y gwasanaeth ac eithrio gwaith a wneir er budd person anabl sy'n cael ei eithrio rhag tâl (gweler ein ffurflen gais am fanylion)

Mae dau ddull o bennu'r tâl ar gyfer gwaith adeiladu:

- 1 Taliadau safonol a thaliadau a bennir ar sail unigol.
- 2 Mae'r taliadau ar gyfer y rhan fwyaf o estyniadau ac addasiadau domestig yn daliadau safonol a chânt eu rhestru yn y tabl isod.

Os ydych yn adeiladu nifer o estyniadau a/neu sawl math o addasiadau ar yr un pryd, bydd yr Awdurdod yn gallu lleihau'r taliadau safonol, dylech ofyn am asesiad unigol o'r tâl ar gyfer y math hwn o waith.

Os na chaiff y tâl ar gyfer eich gwaith rheoleiddio adeiladu ei restru fel tâl safonol, caiff ei bennu ar sail unigol.

DEFNYDDIO TRYDANWYR COFRESTREDIG RHAN P

Er mwyn adlewyrchu costau'r Awdurdodau Lleol, os **nad yw** gwaith trydanol perthnasol yn cael ei gynnal gan ddefnyddio Trydanwr Cofrestredig Rhan P cymwys, mae'r taliadau safonol yn cynyddu'n sylweddol.

Bydd tâl Arolygu neu Hysbysiad Adeiladu uwch yn gymwys pan fydd unrhyw waith trydanol **hysbysadwy** yn cael ei wneud gan ddefnyddio Trydanwr **nad ydynt** yn gofrestredig Rhan P. Nid yw hyn yn berthnasol lle nad yw'r unig waith trydanol a wneir yn hysbysadwy. (Dylai eich Trydanwr fod yn ymwybodol o ddiffiniad gwaith nad yw'n hysbysadwy).

Mae Trydanwr Cofrestredig Rhan P yn drydanwr cymwys sydd hefyd â'r wybodaeth angenrheidiol am reoliadau adeiladu er mwyn galluogi ei gorff achredu i ardystio ei waith. Er mwyn adennill costau'r Awdurdod Lleol os bydd unrhyw un heblaw Trydanwr Cofrestredig Rhan P yn ymgymryd â'r gwaith trydanol, mae tâl ychwanegol (Gweler Tabl C, Categori 5) yn gymwys.

Tâl Rheoleiddio (Cais Ôl-weithredol) – mae hyn yn talu am y gost o asesu eich Cais am Dystysgrif Rheoleiddio gan gynnwys yr holl arolygiadau angenrheidiol ac mae'n daladwy ar ôl cyflwyno'r Cais. Y tâl Rheoleiddio sy'n daladwy yw swm sy'n hafal i **150%** o'r Cynllun/Arolygu a'r Tâl Hysbysiad Adeiladu net (Dim Taw).

TABL B ESTYNIAD DOMESTIG I UN ADEILAD

Mae'r ffigurau mewn **PRINT AMLWG** yn cynnwys **TAW** ar gyfradd o 20% (nid yw **TAW** yn daladwy ar Dâl Rheoleiddio)

CATEGORI	DISGRIFIAD	CYNLLUNIAU/AROLYGU A THALIADAU ADEILADU	RHEOLEIDDIO
ESTYNIAD UNLLAWR			
1	Arwynebedd llawr estyniad unllawr heb fod yn fwy na 10m ²	£325.00 £390.00	£487.50
2	Arwynebedd llawr estyniad unllawr sy'n fwy na 10m ² ond heb fod yn fwy na 40m ²	£404.17 £485.00	£606.26
3	Arwynebedd llawr estyniad unllawr sy'n fwy na 40m ² ond heb fod yn fwy na 100m ²	£466.67 £560.00	£700.00
ESTYNIADAU DEULAWR			
4	Estyniad deulawr heb fod yn fwy na 40m ²	£466.67 £560.00	£700.00
5	Estyniad deulawr sy'n fwy na 40m ² ond heb fod yn fwy na 100m ²	£570.83 £685.00	£856.25
ADDASIADAU I'R LLOFFT			
6	Trosi atig nad yw'n cynnwys adeiladu 'Dormer'	£420.83 £505.00	£631.25
7	Trosi atig sy'n cynnwys adeiladu 'Dormer'	£466.67 £560.00	£700.00
GAREJYS A PHYRTH CEIR			
8	Codi estyniad unllawr ar wahân, nad yw wedi'i eithrio, o garej neu borth ceir domestig hyd at 100m ²	£245.83 £295.00	£368.75
9	Codi estyniad unllawr nad yw ar wahân, nad yw wedi'i eithrio, o garej neu borth ceir domestig hyd at 100m ²	£245.83 £295.00	£368.75
ARALL			
10	Addasu garej i fod yn ystafell(oedd) y gellir byw ynddi (ynddynt)	£245.83 £295.00	£368.75
11	Newidiadau i ymestyn neu greu islawr hyd at 100m ²	£466.67 £560.00	£700.00

NODER:

BYDD ANGEN TALIADAU YCHWANEGOL I'R HYSBYSIAD ADEILADU UCHOD NEU'R TÂL CYNLLUN PAN NA DDEFNYDDIR TRYDANWR CYMWYS RHAN 'P', GWELER TABL C – CATEGORI 5.

TABL C

ADDASIADAU DOMESTIG I ADEILAD UNIGOL

Mae'r ffigurau mewn **PRINT AMLWG** yn cynnwys **TAW** ar gyfradd o 20% (nid yw **TAW** yn daladwy ar Dâl Rheoleiddio)

CATEGORI		TÂL SYLFAENOL	TALIADAU CYNLLUNIAU/AROL YGU A HYSBYSIADAU ADEILADU	RHEOLEIDDIO	MANYLION UNRHYW OSTYNGIAD AR GYFER GWAITH A WNAED AR YR UN PRYD Â'R GWAITH Y CYFEIRIR ATO YN NHABL B
1	Gwaith sylfaen	Pris Sefydlog	£229.17 £275.00	£343.76	50%
2	Adnewyddu elfen thermol i un annedd	Pris Sefydlog	£87.50 £105.00	£131.25	50%
ADDASIADAU MEWNOL					
3	Newidiadau mewnol, gosod ffitiadau (nid newidiadau trydanol a/neu strwythurol (Os yw'n atodol i adeiladu'r estyniad, nid oes tâl ychwanegol)	Pris Sefydlog yn seiliedig ar fandiau cost amcangyfrife dig			
		Amcan gost £0 - £2000	£125.00 £150.00	£187.50	50%
		Amcan gost £2,000 - £5,000	£204.17 £245.00	£306.26	50%
		Amcan gost yn fwy na £5,001 a hyd at £15,000	£245.83 £295.00	£368.00	50%
		Amcan gost yn fwy na £15,001 a hyd at £25,000	£345.83 £415.00	£518.74	50%
		Amcan gost yn fwy na £25,001 a hyd at £40,000	£441.67 £530.00	£662.50	50%
	Amcan gost yn fwy na £40,001 a hyd at £60,000	£537.50 £645.00	£806.35	50%	

CATEGORI	TÂL SYLFAENOL	TALIADAU CYNLLUNIAU/AROL YGU A HYSBYSIADAU ADEILADU	RHEOLEIDDIO	MANYLION UNRHYW OSTYNGIAD AR GYFER GWAITH A WNAED AR YR UN PRYD Â'R GWAITH Y CYFEIRIR ATO YN NHABL B
AMNEWID FFENESTRI				
4	Amnewid ffenestri (cynllun personau nad ydynt yn gymwys)	Pris sefydlog wedi'i grwpio yn ôl nifer y ffenestri: 1-3 ffenestr	£83.33 £100.00	£125.00 50%
		4-20 ffenestr	£125.00 £150.00	£187.50 50%
		20 neu fwy o ffenestri	£208.33 £250.00	£312.50 50%
GWAITH TRYDANOL				
5	Gwaith sy'n ymwneud â gosodiadau trydanol nad yw'n hysbysadwy fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Adeiladu 2000 Rhan P Diogelwch Trydanol	Gwaith trydanol (cynllun personau nad yw'n gymwys) Gwaith a wnaed gan Drydanwr cymwys yn unol â BS7671	£133.33 £160.00	£200.00 Dd/B
		Gwaith trydanol a wneir gan eraill	£279.17 £335.00	£418.76 Dd/B
GOSOD OFFER CYNHYRCHU GWRES				
6	Gosod offer cynhyrchu gwres tanwydd solet lle nad yw'r gosodwr yn aelod o 'Gynllun Personau Cymwys'	Pris Sefydlog	£125.00 £150.00	£187.50 Dd/B

ENGHRAIFFT o ostyngiad mewn taliadau safonol pan wneir gwaith perthnasol y cyfeirir ato yn Nhabl C ar yr un pryd â gwaith yn Nhabl B:

Disgrifiad o'r Gwaith	
Bwriedir adeiladu estyniad un llawr gydag arwynebedd llawr o 10m ² a hefyd wneud newidiadau strwythurol mewnol gydag amcan gost o £5,000	
Tâl am Estyniad	Tâl am Addasiadau
Tâl Cynllun, Arolygu/Hysbysiad Adeiladu am estyniad = £325.00 + TAW	Tâl Cynllun, Arolygu/Hysbysiad Adeiladu am newidiadau = £204.17 – gostyngiad o 50% = £102.00 TAW
Cyfanswm y tâl am estyniad ac addasiadau = £325.00 + £102.00 = £427.00 +TAW	

NODIADAU PWYSIG

Mae'r taliadau hyn wedi'u pennu gan yr awdurdod ar y sail nad yw gwaith adeiladu'n cynnwys technegau arloesol neu risg uchel (manyion ar gael gan yr awdurdod) a/neu nad yw hyd y gwaith adeiladu o'r dechrau tan y diwedd yn fwy na 12 mis.

Mae'r taliadau hefyd wedi'u pennu ar y sail bod y gwaith cynllunio ac adeiladu yn cael ei wneud gan berson neu gwmni sy'n gymwys i wneud y gwaith cynllunio ac adeiladu perthnasol. Os nad ydynt, gall taliadau ychwanegol fod ynghlwm wrth y gwaith.

TALIADAU A BENNIR AR SAIL UNIGOL

Os nad yw'r gwaith yr ydych yn ei wneud wedi'i restru fel tâl safonol, bydd y tâl yn cael ei bennu ar sail unigol.

Mae'r dull hwn o bennu'r tâl yn ymwneud yn bennaf â chynlluniau mwy ac yn cynnwys y mathau canlynol o waith adeiladu:

- Ceisiadau sy'n destun tâl refersiwn (gwaith refersiwn gan archwilydd cymeradwy yr Awdurdod Lleol);
- Gwaith adeiladu sy'n ymwneud â mwy nag un adeilad;
- Gwaith adeiladu sy'n cynnwys addasiadau i eiddo domestig (ar wahân i estyniadau) lle y mae'r gost a amcangyfrifir yn fwy na £60,000;
- Gwaith adeiladu sy'n cynnwys estyniad domestig lle y mae arwynebedd y llawr yn fwy na 100m²
- Gwaith adeiladu sy'n cynnwys garej neu borth ceir domestig heb ei eithrio sydd ag arwynebedd llawr mwy na 100m²

Os nad yw eich gwaith adeiladu wedi'i restru fel tâl safonol, caiff ei gyfrifo'n unigol. E-bostiwch building.control@newport.gov.uk gyda'r geiriau 'Cais am dâl Rheoliadau Adeiladu' yn y teitl a rhowch ddisgrifiad o'r gwaith arfaethedig. Byddwn yn cysylltu â chi o fewn 24 awr (dydd Llun i ddydd Gwener) ar gyfer gwneud taliad, am gyngor neu am fwy o fanylion ffoniwch 01633 210093/95